



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gofal Plant Gogerddan  
Plas Gogerddan  
Penrhyn-coch  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3EB**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/11/2016**

## Cyd-destun

Mae Gofal Plant Gogerddan wedi ei leoli ym mhentref Penrhyn-coch, ger Aberystwyth yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae'r lleoliad yn ddwyieithog ac mae ymarferwyr yn siarad Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Mae'r lleoliad yn agor am bum niwrnod yr wythnos ac mae ganddo 34 o ymarferwyr. Mae arweinwyr ystafell yn rheoli gwahanol grwpiau oedran y lleoliad. Mae pump o ymarferwyr yn gweithio yn y lleoliad ar gyfer plant tair oed.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu iddo dderbyn hyd at 49 o blant, ac mae 16 o blant wedi eu cofrestru ar gyfer y lleoliad i blant tair oed ar unrhyw adeg benodol. Mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng chwe wythnos oed a phedair oed. Adeg yr arolygiad, roedd 13 o blant yn mynychu'r lleoliad i blant tair oed, ac mae wyth ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi rhai plant iau yn y lleoliad.

Mae bron pob un o'r plant o dras gwyn Prydeinig ac mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd arweinydd yr ystafell ar ei swydd yn Hydref 2013. Perchennog y lleoliad yw'r rheolwr o ddydd i ddydd er Hydref 2012. Arolygwyd Gofal Plant Gogerddan gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yng Ngorffennaf 2016 ac arolygwyd y lleoliad gan Estyn ym Mehefin 2013.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Rhagorol</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd ym mhob maes dysgu ac yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- mae bron pob un o'r plant yn dangos brwdfrydedd tuag at eu dysgu
- mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol
- mae profiadau dysgu rhagorol yn darparu cyfleoedd rheolaidd a hynod effeithiol i blant ddatblygu eu medrau allweddol, cymdeithasol ac annibynnol
- caiff y cwricwlwm eithriadol o eang, cytbwys a diddorol ei gefnogi'n dda gan amgylchedd dysgu bywiog
- mae arferion addysgu ac asesu ymarferwyr yn herio plant yn dda
- mae ymarferwyr yn rhoi gofal a chymorth diwyd i blant
- mae ymarferwyr yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant
- gwneir defnydd rhagorol o adnoddau hygyrch, dan do, yn yr awyr agored ac yn yr ardal goedwig ddyfeisgar ac arloesol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae cyfeiriad strategol rhagorol i waith y lleoliad gan y perchennog
- gwneir defnydd gwych o asiantaethau allanol gan y perchennog ar gyfer hyfforddiant a chyllid grant
- mae'r systemau a'r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu wedi eu hymgorffori'n ddwfn ym mywyd bob dydd y lleoliad, sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn monitro darpariaeth ac yn asesu deilliannau plant yn eithriadol o dda
- mae gan ymarferwyr agweddau cadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant
- ceir partneriaethau eithriadol o gryf ag ysgolion lleol ac ystod eang o asiantaethau allanol sy'n cael effaith arbennig o dda ar y ddarpariaeth
- mae gwaith dyddiol a hirdymor y perchennog a'r uwch ymarferwyr gweithgar a chefnogol yn heriol, yn drylwyr ac yn hynod effeithiol
- caiff arian a chyllid grant eu gwario'n uniongyrchol ar ddarpariaeth arloesol, fel yr ardal goedwig, sy'n anelu'n uniongyrchol at wella deilliannau plant

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod plant yn deall bwriadau dysgu gwahanol dasgau â ffocws

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos safonau da o ystyried eu manau cychwyn. Gwnânt gynnydd cyson o ran datblygu eu medrau mewn tasgau bob dydd a thasgau mwy cymhleth, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae llawer o blant yn mynegi eu teimladau a'u hemosiynau'n dda trwy chwarae rôl o dan ganopiâu yn yr ardal goedwig ac yn y caffi dan do. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol gydag oedolion a gyda'i gilydd am lyfrau a faint o geirch sydd eu hangen i wneud uwd ar gyfer gwahanol eirth. Maent yn cydweithredu'n dda mewn chwarae gweithredol hefyd wrth sbasio mewn pyllau dŵr a rhedeg i fyny ac i lawr llybrau sgldion coed yn yr ardal goedwig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod plant a phobl eraill yn eu deall wrth ymateb i gwestiynau gan oedolion a chyfoedion yn ystod tasgau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan bobl eraill ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan fyddant yn rheoli cyfeiriad tegau electronig a phan fyddant yn mowldio toes mewn grwpiau gyda rholbrennau a thorwyr siapiau.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a phlant eraill. Maent yn trin y llyfrau yn yr ardaloedd darllen dan do ac awyr agored fel darllenwyr naturiol. Mae llawer ohonynt yn dilyn storiâu sy'n cael eu darllen iddynt yn dda. Maent yn ymateb yn synhwyrol i gynnwys y stori. Er enghraifft, maent yn trafod moeswersi a negeseuon straeon tylwyth teg yn dda, gan fynegi eu teimladau'n glir, ar sut mae creaduriaid penodol fel ellyllon yn gwneud iddynt deimlo.

Mae lleiafrif o blant yn defnyddio iaith soffistigedig mewn chwarae digymell a strwythuredig yn bwrpasol wrth goginio cacennau a phrydau bwyd yn y gegin fwd. Wrth astudio storiâu mewn llyfrau, maent yn adnabod nodweddion personoliaeth cymeriad a gallant esbonio a yw cymeriad yn 'dda' neu'n 'ddrwg' a ph'un a yw Elen Benfelen yn nhŷ'r eirth yn 'hapus' neu'n 'ofnus'.

Mae llawer o blant yn arbrofi â chreu marciau yn effeithiol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc a phensiliau. Maent hefyd yn nodi gwahanol ddewisiadau plant ar daflenni archebu yn y caffi chwarae rôl. Mae rhai plant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol ac mewn ffurf y gellir ei hadnabod yn weddol wrth ddal pensiliau a chreonau. Mae mwyafrif y plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destun cywir. Mae lleiafrif o blant yn adnabod eu henw eu hunain ac enwau plant eraill ac yn rhannu syniadau'n bwrpasol am yr hyn y maent yn ceisio'i esbonio neu'i gofnodi ar bapur.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Mae llawer o blant yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau i ddeg yn hyderus ac mae rhai ohonynt yn cyfrif i 20 a thu hwnt. Mae rhai plant yn deall yn glir sut i ddechrau bondio rhifau i bump trwy gyfrif a threfnu gwrthrychau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol. Maent yn cyfrif llond llaw o geirch yn llwyddiannus i fesur powlenni 'llawn', 'hanner llawn' a 'bron yn wag' o geirch ac yn cyfrif rhifau o un i un deg pump yn hyderus wrth gyfrif faint sy'n eistedd ar feinciau yn yr ardal goedwig. Gyda chymorth, mae ychydig iawn o blant yn deall yn glir sut i roi gwrthrychau yn nhrefn eu maint o'r cyntaf i'r pumed. Mae llawer o blant hefyd yn deall gwahaniaethau mewn cynhwysedd wrth iddynt rybuddio ei gilydd y gall pyllau fod yn 'fas' neu'n 'ddwfn'.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol wrth chwarae gyda'i gilydd, er enghraifft wrth gymharu gwrthrychau o ran hyd, uchder, pwysau neu gynhwysedd. Maent yn defnyddio rhifau'n ymarferol ac yn llwyddiannus hefyd wrth drafod 'llai na' a 'mwy na' wrth gymharu siapiau dau a thri dimensiwn, fel twmpathau a chylchoedd o does. Mae bron pob un o'r plant yn trefnu gwahanol fathau o wrthrychau yn grwpiau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir.

Mae bron pob un o'r plant yn gwranddo ar gerddoriaeth gyda mwynhad ac yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau meddwl da, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda phlant eraill yn ddeallus wrth iddynt archwilio patrymau, gwadau a lliwiau wrth greu golygfa dan y dŵr gan ddefnyddio sbyngau ac wrth gyfuno deunyddiau i greu cychod gan ddefnyddio cynwysyddion, glud a phapur sidan.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio cyfrifiaduron llechen electronig ac mewn gweithgareddau bob dydd fel defnyddio ffonau symudol, tegau electronig a chamerau. Mae bron pob un o'r plant yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn Gymraeg, ac mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg heb anogaeth gan oedolion. Mae'r rhan fwyaf o blant yn canu hwiangerddi a chaneuon yn Gymraeg yn frwdfrydig.

### **Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant, o ran eu hoedran, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut gallant aros yn iach. Maent yn golchi eu dwylo'n drwyadl cyn bwyta eu byrbrydau ac yfed. Gwnânt hyn heb lawer o anogaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda fod diet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau. Maent yn esbonio'n ddeallus fod ymarfer corff yn eich cadw'n heini a bod gweithgareddau corfforol fel reidio beic a rhedeg ar ôl eich gilydd ar lwybrau serth yn yr ardal goedwig yn gwneud i'ch calon guro'n gyflymach.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch at oedolion ac at ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau da o hunanhyder, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer amser byrbryd ac wrth wisgo eu cotiau a'u hesgidiau glaw yn annibynnol ar gyfer chwarae'r tu allan.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu dan do ac awyr agored ac yn rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda chyfoedion. Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd a dysgu. Maent yn ymwybodol o anghenion pobl eraill ac yn dangos parch atynt wrth rannu mewn tasgau sy'n cynnwys defnyddio offer technolegol, taflenni archeb yn y caffi ac wrth weithio gyda'i gilydd yn y gegin fwd. Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu cyfnod yn y lleoliad ac maent yn awyddus i drafod eu hoff weithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a bod ganddynt hawl i fynegi barn, er enghraifft wrth benderfynu parhau â thasg â ffocws dan do neu ymuno mewn chwarae yn yr awyr agored a phan fyddant yn cyfrannu at gynllunio themâu gydag oedolion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, ymgysylltiad a ffocws.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn darparu cwricwlwm eang ac effeithiol iawn. Mae'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn bwrpasol trwy ddarparu profiadau dysgu bywiog ac ysgogol. Mae'r profiadau heriol hyn yn targedu anghenion a diddordebau plant yn rhagorol ac yn eu hysgogi i ddysgu'n llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd eithriadol o werthfawr i blant gymryd rhan yn y cynllunio a mynegi eu diddordebau mewn themâu tymhorol. Mae ymarferwyr yn trafod themâu a gweithgareddau mewn cyfarfodydd wythnosol ac maent yn trefnu'r cynllunio arloesol o ran gweithgareddau'r thema yn effeithlon. Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'r plant i gynllunio eu syniadau fel man cychwyn i bob thema, sy'n cyfrannu'n sylweddol at gymhelliant y plant. O ganlyniad, mae'r arferion cynllunio manwl a hyblyg yn darparu cyfleoedd rheolaidd a deallus i bob plentyn ddatblygu eu medrau allweddol, cymdeithasol ac annibynnol yn effeithiol.

Mae'r profiadau dysgu ysbrydoledig, sy'n cynnwys tasgau sy'n ysgogi'r meddwl fel cynhesu malws melys dros dân a mesur ceirch mewn powlenni ar gyfer gwahanol eirth, yn darparu parhad a dilyniant yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn herio'r holl blant yn drylwyr ym mhob maes dysgu, yn enwedig mewn tasgau llythrennedd a rhifedd. Mae'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant yn ddyfeisgar gan ddefnyddio cegin fwd yn yr awyr agored a gofalu am gwningen a mochyn cwta. Mae tasgau dyddiol yn cysylltu'n gyson a synhwyrol â strategaethau asesu'r lleoliad i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn drylwyr. Mae'r arfer hon yn reddfol ac yn effeithiol iawn. Mae'n herio bron pob un o'r plant yn systematig trwy dasgau cydlynus sy'n deillio'n uniongyrchol o ddysgu blaenorol.



Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu'n drylwyr yn yr ardal goedwig arloesol, sy'n effeithio ar ddysgu plant yn wych. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod plant yn creu marciau ac yn arbroti â rhifau yn effeithiol iawn mewn gweithgareddau ymarferol fel adeiladu cartref pren ar gyfer eirth. Mae ymarferwyr a phlant yn cyfrannu eu syniadau ar y cyd i gyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach, ac mae oedolion yn gwrando'n astud ar awgrymiadau plant ar sut i ddatblygu eu dysgu ymhellach yn ystod tasgau. Felly, mae ymarferwyr yn cydweithredu'n effeithiol â phlant i ddarparu gweithgareddau hyblyg a llwyddiannus iawn dan do ac yn yr ardaloedd awyr agored fel ei gilydd.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n fanwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau meddwl plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu, sy'n herio pob plentyn yn gyson i gyflawni o'i orau. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn ei chydlynu'n bwrpasol fel bod cydlynid ym mhrofiadau'r plant ar draws y cwricwlwm.

Mae ymarferwyr yn addasu'r cwricwlwm yn wybodus i'w wneud yn hygyrch i'r holl blant. Caiff tasgau creu marciau a rhif ar draws pob maes dysgu eu cynllunio mewn ffordd ysgogol a difyr. Maent yn gynyddol a heriol, sy'n annog plant i greu marciau ac ymchwilio i briodoleddau rhifau a siapiau. Mae hyn yn cynnwys herio plant unigol i adnabod llythrennau yn eu henw eu hunain ac adnabod rhifau sy'n hongian o goed yn yr ardal goedwig, a'u rhoi yn eu trefn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn effeithiol iawn o ran defnyddio cyfrifiaduron, cyfrifiaduron llechen electronig, camerâu, tiliau, teganau electronig, peiriannau chwarae cryno ddisgiau a chlustffonau. Mae hyn yn gwella medrau TGCh plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae hyn yn amlwg iawn yn yr ardal goedwig lle mae'r holl weithgareddau'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, medrau meddwl a medrau creadigol plant yn ddeallus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio storïau a mygydau fel bod plant yn ymchwilio i'r gwahaniaeth rhwng emosiynau penodol sy'n cynnwys ofn, dicter, hapusrwydd a chydymdeimlad mewn ardaloedd cysgodol yn yr awyr agored ac mewn ardal gylch â seddi o gwmpas pwll tân.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn fedrus. Mae trefnu'r ymarferwyr yn ofalus yn ystod gweithgareddau dan do ac awyr agored yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael bob amser yn ystod tasgau â ffocws, tasgau parhaus a thasgau manylach. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn enghreifftio'r iaith yn dda iawn ac mae hyn yn effeithio ar ddefnydd y plant o'r iaith yn gadarnhaol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd. Mae ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg mor aml ag y bo modd yn eu dysgu trwy arferion arloesol gydag unigolion a grwpiau penodol o blant, sy'n cynnwys defnydd pwrpasol o TGCh ac ystod eang o lyfrau darllen.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru yn llwyddiannus iawn, yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae'r dathliadau hyn yn cynnwys coginio ryseitiau Cymreig traddodiadol, gwrando ar chwedlau gwerin a chreu cardiau, ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddealltwriaeth y plant o'u diwylliant a'u treftadaeth.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd rhagorol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu plant mewn modd cadarnhaol. Er enghraifft, mae ymweliadau â'r gymuned leol, traethau lleol a fferm waith organig yn ychwanegu diddordeb a dealltwriaeth well o'r cwricwlwm. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys y gwasanaethau brys, ffermwr sydd â stonddin fferm organig ac arbenigwyr â chreaduriaid y môr, yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn y gymuned.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu difyr iawn sy'n annog plant i ddangos parch at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd, Diwali a Tanabata. Mae'r profiadau hyn, sydd wedi eu cynllunio'n dda iawn, yn datblygu dealltwriaeth well o'r byd ar gyfer y plant. Maent yn gwella ymwybyddiaeth y plant o ddinasyddiaeth fyd-eang yn synhwyrol.

### **Addysgu: Da**

Mae addysgu ymarferwyr yn effeithio ar ddysgu plant yn gadarnhaol. Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu pob plentyn. Mae gan ymarferwyr rôl weithredol mewn cynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Maent i gyd yn gadarnhaol iawn wrth i blant gyrraedd. Maent yn parhau â'r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn, sy'n galluogi pob plentyn i ymdawelu'n gyfforddus a dechrau tasgau'n brydlon.

Ceir ymyrraeth sensitif a medrus gan oedolion, sy'n annog plant i'w cymell eu hunain wrth iddynt ddysgu. Mae'r holi penagored gan yr ymarferwyr yn heriol ac mae ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ysgogol. Er enghraifft, mae cyfleoedd i greu marciau yn yr ardal awyr agored yn annog plant i dynnu lluniau a dechrau ymarfer ysgrifennu'n gynnar yn annibynnol. Mae ymarferwyr yn caniatáu i blant symud yn annibynnol rhwng yr ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored hefyd heb gyfarwyddyd gan oedolyn ac mae hon yn nodweddiadol gref yn yr addysgu. Mae hyn yn cynyddu dewisiadau plant ar sut i gwblhau tasgau ac mae'n cynyddu eu cyfleoedd ar gyfer dysgu'n annibynnol.

Mae ymarferwyr yn mynnu bod plant yn casglu, arfarnu a gwerthfawrogi yn ystod gwahanol dasgau, sy'n ysgogi eu dychymyg a'u hannibyniaeth yn dda. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw ymarferwyr yn gwneud bwriadau dysgu gwahanol dasgau ffocws yn glir i blant.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwr sy'n bodloni anghenion unigol plant yn ddeallus. Gwnânt ddefnydd dychmygus o adnoddau ac maent wedi trefnu'r lleoliad yn eithriadol o dda dan do ac yn yr awyr agored i dargedu cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant ym mhob maes dysgu. Mae trefniadaeth o'r fath yn sicrhau bod yr holl blant yn cymryd rhan mewn tasgau ac yn cyfrannu atynt yn bwrpasol. Mae hyn yn dangos bod defnydd effeithiol iawn yn cael ei wneud o adnoddau'r lleoliad i gefnogi'r addysgu, ac mae'n arbennig o amlwg yn ardal goedwig y lleoliad.

Mae'r holl ymarferwyr yn amseru cyflwyniadau i dasgau'n effeithiol i gynnal diddordeb pob plentyn yn y gweithgaredd. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn fodolau iaith da yn Gymraeg, ac mae hyn yn annog pob plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn arferion bob dydd.

Mae gweithdrefnau asesu effeithiol a sefydledig yn bodoli. Mae ymarferwyr yn rhoi adborth llafar adeiladol ac ystyriol i blant, gan roi esboniad synhwyrol o'u llwyddiannau mewn tasgau a sut gallant wella'u gwaith. Mae ymarferwyr yn cwblhau cofnodion o gyflawniadau plant yn drylwyr. Mae'r asesiadau trylwyr yn arwain yn gywir, trwy gynllunio manwl, at y camau nesaf yn nysgu plant unigol. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gyflawniadau a lles eu plant. Mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg trwy bolisi drws agored y lleoliad.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd croesawgar a chadarnhaol, sy'n adlewyrchu cymuned ofalgar. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol, trwy roi cyfleoedd cyson i blant fyfyrion, trafod teimladau a dweud diolch. Mae hyn yn galluogi pob un o'r plant i fod yn unigolion gofalgar sy'n gwybod y gwahaniaeth rhwng ymddygiad da ac ymddygiad annerbyniol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dda, sy'n cael gwared ar unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad ymosodol. Mae plant yn hapus a diogel yng nghwmni'r oedolion yn y lleoliad ac mae pob plentyn yn gofyn am gymorth neu gefnogaeth pan fydd angen.

Mae ymarferwyr yn caniatáu i blant weini diodydd i'w gilydd a dosbarthu ffrwythau a byrbrydau wrth y bar byrbrydau. Mae hyn yn annog plant i gymryd eu tro yn gwrtais yn ystod amser byrbryd. Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, gan gynnwys defnyddio'r ardaloedd yn yr awyr agored, cyfleuster y goedwig a'r tir fferm cyfagos ar gyfer gweithgareddau corfforol. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi iechyd a lles plant, sy'n dylanwadu ar ddysgu'r plant yn bwrpasol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd ffordd iach a chytbwys o fyw.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i'r plant ailgylchu bwyd, papur, cardfwrdd a photeli plastig. Maent hefyd yn compostio bwyd yn eu hardaloedd gerddi eu hunain. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn effeithiol pan fyddant yn ymuno, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae ymarferwyr yn ymateb yn gyflym i anghenion penodol unigolion ac mae'r lleoliad yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant yn dda â chymorth ychwanegol pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn trafod cymorth gydag asiantaethau priodol ac yn rhoi strategaethau ar waith yn effeithlon i gynorthwyo plant unigol. Maent yn paratoi cynlluniau unigol manwl ar gyfer y plant hyn, sy'n cael eu haddasu yn unol â datblygiadau a chynnydd plant. Mae'r perchennog yn tueddu i gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau sydd eu hangen i gynorthwyo plant.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae ethos y lleoliad yn adlewyrchu awyrgylch croesawgar, hapus a chynhwysol iawn. Mae'n gweithredu polisïau ac arferion sy'n parchu hawliau pob unigolyn yn y lleoliad ac fel rhan o'r gymuned leol. Mae ymarferwyr y lleoliad yn trin pawb yn gyfartal ac mae perthynas agos yn bodoli rhwng cyfoedion ac ymarferwyr. Mae'r awyrgylch teuluol yn cyfrannu'n helaeth at awydd y plant i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau a'r safonau ymddygiad cadarnhaol yn y lleoliad.

Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau addas a phrofiad da. Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol iawn, a neilltuir ymarferwyr ychwanegol i bob ystafell i sicrhau'r safonau gorau posibl o gymorth dyddiol. Mae'r lleoliad yn defnyddio arbenigedd ymarferwyr yn dda iawn i gynllunio profiadau dysgu, addysgu a goruchwylio gweithgareddau.

Mae'r amgylchedd ffisegol a defnydd y lleoliad ohono yn nodwedd eithriadol o dda. Mae o safon uchel ac mae trefniadaeth y meysydd dysgu'n rhagorol, gydag arddangosfeydd lliwgar sy'n portreadu gwaith y plant yn synhwyrol. Mae'r lleoliad yn ddychmygus iawn o ran gwneud defnydd llawn o'r adeilad a'r amgylchedd awyr agored. Mae dyluniad yr ardaloedd dysgu dan do i wneud y defnydd gorau posibl o wagle yn synhwyrol ac yn llifo'n dda o'r ardaloedd dan do i'r ardaloedd awyr agored. Mae pob ymarferwr yn darparu profiadau gwerthfawr ar gyfer plant yn unol ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen ym mhob maes a gweithgaredd. Ceir cyfleusterau helaeth ac ysgogol yn yr ardaloedd awyr agored. Mae ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu yn greadigol gan ddefnyddio canopïau yn yr ardal goedwig ac offer arall fel beiciau, trawstiau cydbwysu, gwestyau chwilod ac offer dringo i fodloni anghenion plant yn eithriadol o dda.

Mae ymestyn yr ardaloedd addysgu a dysgu i'r awyr agored wedi bod yn gam eithriadol o lwyddiannus o ran darparu amgylchedd dysgu hynod ysgogol. Mae'r ardal goedwig a ddatblygwyd yn helaeth yn y misoedd diwethaf yn cynnwys llwybrau sglodion coed, ardal gylch â seddi, pwl tân a chuddfannau niferus wedi eu gwneud o ganghennau coed. Mae'r ddarpariaeth hon yn gwella medrau annibynnol a lles plant yn eithriadol o dda, fel paratoi cacennau a phrydau bwyd dychmygus yn y gegin fwd.

Mae'r lleoliad yn ymestyn yr amgylchedd dysgu'n effeithiol iawn i'r pentref lleol a ffermydd cyfagos. Mae ystod yr adnoddau y tu allan i'r adeilad, a'r ardaloedd dysgu pwrpasol yn yr adeilad, yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd cadarn y mae bron pob un o'r plant yn ei wneud o'u mannau cychwyn. Er enghraifft, mae'r ardaloedd ar gyfer tyfu llysiau, blodau a pherlysiâu, sied adeiladu, y gegin fwd, yr ardaloedd â glaswellt a'r ardaloedd chwarae rôl a darllen yn yr awyr agored i gyd yn cyfrannu at greu amgylchedd dysgu o ansawdd da yn yr awyr agored. Yn ychwanegol, mae stondin o lysiau sy'n cael eu tyfu'n organig ar gael ar gyfer archebion rhieni yng nghyntedd y lleoliad. Mae pob un o'r ardaloedd dysgu amrywiol a phwrpasol hyn yn ysgogi plant i gyflawni'n dda ac mewn awyrgylch eithriadol o ddiddorol ac atyniadol.

Ceir ystod eang o adnoddau o ansawdd da i ymateb i anghenion dysgu plant, fel offer TGCh, ystod eang o lyfrau darllen ac adnoddau dysgu pwrpasol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod yr adeilad a'r tir yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda iawn.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Rhagorol</b>
--	-----------------

### **Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r perchennog yn eithriadol o effeithiol yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau dros gyfnod. Mae ei rheolaeth dros addysgu a dysgu yn y lleoliad yn rhagorol ac mae'n sicrhau bod disgwyliadau pob un o'r ymarferwyr yn uchel.

Mae'r perchennog yn arloesol ac yn sicrhau darpariaeth effeithiol iawn a diwylliant cryf a chyson o godi safonau. Mae'r amcanion strategol, y cynlluniau a'r polisïau yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth effeithiol, yn targedu anghenion plant ac yn hyrwyddo cyflawniadau plant yn gyson. Felly, mae'r perchennog yn arwain tîm cadarn o staff ymroddgar yn reddfol ac yn rhoi cyfeiriad strategol cadarn i arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn gweithredu a monitro'r cynlluniau ar gyfer gwella yn bwrpasol yn erbyn camau gweithredu a graddfeydd amser realistig. Mae hon yn nodwedd ragorol gan ei bod yn cynnwys defnyddio ffynonellau cyllid o sefydliadau cymorth amrywiol i ddatblygu darpariaeth arloesol, lwyddiannus a chymunedol. Mae'r perchennog a'r ymarferwyr arwain yn sicrhau bod pob un o'r staff yn deall eu rolau'n llawn ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn ddiwyd fel tîm. Mae hyn yn sicrhau profiadau dysgu rhagorol ac amgylchedd dysgu gwych, sy'n cael effaith dda ar ddeilliannau plant.

Mae'r perchennog yn monitro'r ddarpariaeth yn drylwyr, gan gynnwys trwy adolygu ansawdd yr addysgu'n rheolaidd a thrylwyr. Mae hyn yn arfer eithriadol o dda ac yn nodi diffygion mewn darpariaeth yn effeithiol, fel neilltuo ymarferwyr i ardaloedd dysgu penodol i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn gyson ac yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau Cymraeg plant.

Mae gan y lleoliad ffocws rhagorol ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen weithio, ac eir i'r afael â thargedau yn rheolaidd ac yn effeithiol iawn mewn cyfarfodydd tîm. Felly, mae'r lleoliad yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn drylwyr trwy weithdrefnau hunanarfarnu.

Mae'r perchennog a'r arweinwyr ystafell yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson i greu gwelliannau, fel yr angen i wella medrau technoleg gwybodaeth plant a darparu cyfleoedd Cymraeg gwell. Maent yn cynnal arfarniadau cyson a chraff i sicrhau bod adnoddau ar gael i fodloni'r amcanion gwella, fel datblygiad rhagorol yr ardal goedwig.

### **Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r perchennog yn meddu ar wybodaeth ragorol am arferion presennol y lleoliad a gweledigaeth glir ynglŷn â sut i wella'r ddarpariaeth ymhellach. Mae hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yn rhan reolaidd a phwysig iawn o fywyd gweithio'r lleoliad. Mae pob ymarferwr yn cyfrannu at y broses mewn modd synhwyrol ac adeiladol.

Mae'r perchennog wedi sefydlu system hunanarfarnu drylwyr a deallus yn seiliedig ar ei datblygiad proffesiynol eu hun, sy'n canolbwyntio ar arfarniad gonest o arferion presennol y lleoliad.

Mae'r perchennog wedi ymgorffori'r systemau a'r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu ym mywyd bob dydd y lleoliad yn rhagorol. Mae'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn monitro darpariaeth ac yn asesu deilliannau plant yn effeithiol iawn. Mae'r broses yn cynnwys adolygiadau trylwyr o bob agwedd ar fywyd y lleoliad a'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar y safonau a gyflawnir gan blant. Mae gan y perchennog rôl hynod effeithiol yn y broses, sy'n cynnwys adolygiad blynyddol o waith y lleoliad gan uwch ymarferwyr. Felly, mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n gadarn ar wella darpariaeth a deilliannau plant, wedi ei wreiddio'n ddwfn ym mywyd bob dydd y lleoliad.

Mae'r system hunanarfarnu yn broses real ac effeithiol iawn sy'n galluogi'r lleoliad i nodi, monitro ac arfarnu ei berfformiad yn eithriadol o lwyddiannus. Ceir systemau cadarn iawn i adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella a chymryd camau effeithiol i'w cywiro. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn adnabod ei hun yn drwyadl ac yn mynd i'r afael â gwelliannau yn gyflym iawn ac yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys datblygu ffeil arfer orau i ddangos disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr yn y lleoliad.

Mae pob ymarferwr yn cyfrannu'n llawn at y broses a'r ddogfen derfynol trwy arfarniadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r perchennog yn rheoli'r arsylwadau hyn yn ddiwyd ar sail asesiad cywir o gryfderau a gwendidau'r lleoliad. Er enghraifft, i wella dysgu yn yr awyr agored a dysgu plant, cyflogodd y perchennog athro arbenigol i arwain y newidiadau i ddarpariaeth.

Mae'r perchennog ac arweinwyr ystafell yn arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu'n rheolaidd, sy'n targedu cyfleoedd hyfforddi a datblygu gwell i wella arferion addysgu. Mae'r perchennog yn cymryd camau hynod effeithiol i gynnal arferion effeithlon a rhoi newidiadau ar waith yn llwyddiannus.

Mae'r hunanarfarniad yn rhoi ystyriaeth eang i farn plant, ymarferwyr, rhieni a gofawyr, y rheolwyr a'r awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'n arwain at gynllun datblygu trylwyr, cadarn a gonest. Mae'r cynllun datblygu'n monitro gwelliannau yn erbyn targedau clir a meini prawf llwyddiant. Mae'n blaenoriaethu'r materion pwysicaf i'w gwella ac mae'n ariannu gwelliannau'n dda, gan gynnwys llwyddiant ennill cyllid grant helaeth. Felly, mae diwylliant hunanarfarnu cadarnhaol yn treiddio trwy gynlluniau dyddiol a thymor hir y lleoliad.

Trwy gynnwys yr holl ymarferwyr yn y broses hon, maent yn awyddus i dderbyn syniadau newydd ac arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio, a awgrymwyd gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol. Er enghraifft, ymatebodd y lleoliad yn ddiwyd i gyngor a hyfforddiant yr awdurdod lleol ar sut i roi asesiadau newydd ar waith i nodi man cychwyn pob plentyn. Mae arferion hunanarfarnu rhagorol fel hyn yn effeithio ar ansawdd yr addysgu, y profiadau dysgu a ddarperir ac amgylcheddau dan do ac awyr agored y lleoliad yn eithriadol o dda. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu a lles y plant.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn rhannu ei arferion rhagorol mewn darpariaeth ac arweinyddiaeth gyda lleoliadau eraill yn yr awdurdod lleol a thu hwnt. Mae'n cyfrannu'n effeithiol iawn at hyfforddiant ac mae'r lleoliad yn esiampl dda o arfer ragorol yn yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cryfhau gallu'r ymarferwyr yn effeithiol iawn i sicrhau gwelliannau parhaus mewn darpariaeth a deilliannau plant. Mae'r partneriaethau hynod lwyddiannus hyn yn cyfrannu at greu ethos o gynnig darpariaeth ragorol, arloesol a chreadigol, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae defnyddio partneriaid allanol i ddatblygu'r ardal goedwig wych yn enghraifft ragorol o arloesedd y lleoliad. Mae'n galluogi'r gymuned i gyfrannu at brofiadau dysgu'r plant a'r amgylchedd awyr agored mewn modd ymarferol a hynod bwrpasol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyllid grant, er enghraifft gan archfarchnadoedd lleol, sydd wedi cyfrannu symiau sylweddol o gymorth ariannol i ddatblygu prosiectau arloesol a bywiog i gefnogi dysgu'r plant.

Mae gan y lleoliad berthynas hynod gadarnhaol gyda rhieni. Mae cyfathrebu effeithiol iawn yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i rieni yn rheolaidd, sy'n cynnwys cylchlythyrau rheolaidd a llyfryn gwybodaeth addysgiadol iawn am arferion y lleoliad. Mae deialog glir yn bodoli gyda rhieni am wahanol alergeddau plant ac mae staff cegin y lleoliad yn monitro hyn yn hynod ofalus i sicrhau bod pob plentyn yn aros yn ddiogel yn y lleoliad.

Mae'r perchennog yn sicrhau bod yr arweinydd ystafell yn cysylltu'n effeithiol ag arweinwyr ystafell eraill yn y lleoliad i sicrhau bod y trosglwyddo i ystafell y plant tair oed yn effeithlon. Mae'r lleoliad yn llwyddiannus iawn o ran cynorthwyo rhieni plant sy'n agored i niwed i sicrhau'r cyflawniadau gorau posibl ar gyfer eu plant. Er enghraifft, trwy roi cymorth clir ac adnoddau pwrpasol ar gyfer plant er mwyn gwella medrau bywyd, mae'r lleoliad yn targedu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn eithriadol o dda. Gwneir defnydd rhagorol o ddarpariaeth y lleoliad i ymyrryd a thargedu anghenion plant yn gynnar.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau effeithiol iawn â nifer o ysgolion yn yr ardal leol. Mae'r cydweithrediad a'r cynllunio ar y cyd yn datblygu'r trefniadau pontio gorau posibl ar gyfer y plant pan fyddant yn dechrau yn yr ysgolion hyn. Mae'r cyd-gynllunio a'r cynllunio cytûn yn sicrhau bod plant yn cael arweiniad pwrpasol ac yn galluogi plant i wneud cynnydd clir yng ngham nesaf eu haddysg. Felly, mae trefniadau ar gyfer pontio yn hyrwyddo lles plant yn effeithiol iawn yn ystod trosglwyddiadau i'r gwahanol ysgolion. O ganlyniad i'r cydweithrediad hwn, mae plant yn datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol iawn ac yn rheoli'r trosglwyddiadau'n dda iawn.

Mae ymarferwyr yn cydweithredu'n effeithiol ac mae ganddynt ran bwysig ym mywyd yr ysgol gyfan. Mae cofnodion unigol o gyflawniadau plant a phortffolios defnyddiol sydd wedi eu seilio ar wahanol arferion y lleoliad yn adlewyrchu safonau plant a darpariaeth y lleoliad yn gywir.

Ceir perthynas ragorol rhwng y lleoliad a sefydliadau cymorth lleol. Mae ymweliadau gwerthfawr a phrosiectau dyfeisgar yn yr awyr agored gan y sefydliadau hyn wedi arwain at ardal goedwig ragorol sy'n rhoi cyfleoedd rhagorol i blant ddysgu ar draws

yr holl feysydd dysgu. Mae gan y lleoliad ran amlwg yn y gymuned leol ac mae ymweliadau gan aelodau gan y frigâd dân a'r heddlu yn cefnogi'r dysgu'n dda iawn. Mae'n addysgu plant am bwysigrwydd y gwasanaethau brys mewn cyd-destun lleol.

Mae plant yn ymweld â lleoedd amrywiol o amgylch y pentref lleol ac Aberystwyth yn rheolaidd hefyd. Er enghraifft, mae ymweliadau â pharciau lleol, traethau lleol, siopau a busnesau yn gwella ymagwedd y lleoliad at waith thematig yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da iawn o arbenigedd y brifysgol leol ar gyfer gweithgareddau fel dysgu am greaduriaid y môr gan arbenigwyr yn y maes. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyfoethogi profiadau dysgu plant a'u hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n bodoli yn eu hardal leol.

Mae'r lleoliad wedi creu nifer o gysylltiadau â'r gymuned leol. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o gysylltiadau effeithiol gyda busnesau lleol, gan gynnwys fferm sy'n gwerthu llysiau i rieni. Mae'r plant yn ymweld â'r fferm, ac yn gwella eu dealltwriaeth yn eithriadol o dda mai fferm leol sy'n tyfu'r llysiau sy'n cael eu bwyta yn y lleoliad a gartref. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y lleoliad ac yn ehangu profiadau'r plant yn llwyddiannus.

Mae gan y lleoliad berthynas hynod adeiladol gyda'r awdurdod lleol, y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a Mudiad Meithrin ac mae'n manteisio'n llawn ar y polisiau a'r cytundebau sydd ar gael iddo.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol ac mae'n anelu'n barhaus at wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Mae'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio strategol yn cefnogi addysgu'r holl ymarferwyr yn effeithiol.

Mae'r perchennog a'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad fwy na digon o ymarferwyr cymwys sydd wedi cael hyfforddiant buddiol. Mae'n gymuned ddysgu eithriadol o gryf, sydd â diwylliant rhagorol o gydweithio rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, gan gynnwys cysylltiadau eithriadol o dda gyda'r gymuned leol. Mae systemau rheoli perfformiad a goruchwylio yn gadarn ac yn arwain at addysgu gwell.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei adnoddau gwych yn bwrpasol i gefnogi dysgu a chreu gwelliannau. Mae'r perchennog yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac mae'n blaenoriaethu gwariant yn unol â'r camau arfaethedig ar gyfer gwella yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys defnydd arloesol o gyllid grant. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar gyflawniadau a lles plant. Mae'r lleoliad yn darparu adeilad ac adnoddau o'r safonau gorau posibl o fewn ei gyllideb.

Mae'r profiadau dysgu, yr amgylchedd dysgu a'r arferion arwain sy'n bodoli yn rhagorol. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth y lleoliad wedi effeithio ar ddeilliannau'r plant presennol eto. Felly, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.



## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the setting.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol.
		80%	20%	0%	0%		
My child likes this setting.	15	14 93%	1 7%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn.
		85%	15%	0%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the setting.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad.
		86%	13%	0%	0%		
My child is making good progress at the setting.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.
		81%	18%	0%	0%		
Children behave well in the setting.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.
		72%	27%	0%	0%		
Teaching is good.	15	14 93%	1 7%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		81%	19%	0%	0%		
Staff treat all children fairly and with respect.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		84%	16%	0%	0%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		77%	23%	0%	0%		
My child is safe at the setting.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.
		85%	15%	0%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	14	13 93%	1 7%	0 0%	0 0%	2	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		72%	27%	1%	0%		
I am kept well informed about my child's progress.	16	10 62%	6 38%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		63%	30%	5%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem.	16	14 88%	2 12%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		80%	18%	1%	0%		
I understand the setting's procedure for dealing with complaints.	15	10 67%	5 33%	0 0%	0 0%	1	Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.
		65%	31%	3%	1%		
My child is well prepared for moving on to school.	14	12 86%	2 14%	0 0%	0 0%	2	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.
		74%	25%	1%	0%		
There is a good range of activities including trips or visits.	16	12 75%	4 25%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		64%	32%	4%	1%		
The setting is well run.	16	15 94%	1 6%	0 0%	0 0%	0	Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.
		82%	17%	1%	0%		

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

Nicholas Jones	Arolygydd Cofnodol
----------------	--------------------

### Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.